# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MERCHER, 7FED MEDI, 2016**

Lleoliad

**Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlâg, Dolgellau, LL40 2YB**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Medi 1af  2016)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Annwen Daniels

Annwen Hughes

Louise Hughes (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Linda Morgan

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 5 - 7

BRYNFFYNNON, LOVE LANE, DOLGELLAU, LL40 1RR

Ystyried y cais uchod

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o’r pedwar egwyddor o’r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| DYDDIAD: | 7 MEDI 2016 |
| TEITL: | CAIS AM DRWYDDED EIDDO – BRYNFFYNNON, LOVE LANE, DOLGELLAU LL40 1RR |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH RHEOLEIDDIO |

## CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Brynffynnon, Love Lane, Dolgellau LL40 1RR gan Steven Holt a Debra Harris.
Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, a dangos ffilmiau i unigolion nad ydynt yn breswylwyr gwely a brecwast sydd yn aros ar yr eiddo.
Mae gan yr eiddo drwydded ar hyn o bryd ar gyfer gwerthu alcohol a dangos ffilmiau i breswylwyr ar yr eiddo yn unig. Gofynnir am yr hawl i weini lluniaeth hwyr y nos i breswylwyr yn unig.
Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Cyflenwi alcohol** –<br>Ar yr Eiddo/On Premises<br>**Pobl Ddibreswyl/ Non Residents** | Dydd Llun/Monday 12:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 12:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 12:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 12:00-23:00<br>Digwyddiadau/Events 01:00 |
| **Ffilmiau,** o dan do<br><br>**Pobl Ddibreswyl /Non Residents** | Dydd Llun/Monday 12:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 12:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 12:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 12:00-23:00 |
| **Darparu lluniaeth hwyr y nos -** o dan do<br><br>**Preswylwyr/Residents *** | Dydd Llun/Monday 23:00-05:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-05:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 23:00-05:00<br>Dydd Iau/Thursday 23:00-05:00<br>Dydd Gwener/Friday 23:00-05:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-05:00<br>Dydd Sul/Sunday 23:00-05:00 |
| **Oriau agor a chau i'r Cyhoedd** | Dydd Llun/Monday 12:00-23:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-23:30 |

| Bobl Ddibreswyl/ Non Residents | Dydd Mercher/Wednesday 12:00-23:30<br>Dydd Iau/Thursday 12:00-23:30<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-23:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-23:30<br>Dydd Sul/Sunday 12:00-23:30<br>Digwyddiadau/Events 01:30 |
|---|---|

*Gofynnir am yr hawl i weini lluniaeth hwyr y nos i rai nad ydynt yn breswylwyr rhwng 23:00 a 01:00 mewn digwyddiadau arbennig

**Rheswm dros gyflwyno cais am drwydded eiddo newydd**

Deallir fod y cais wedi ei gyflwyno er mwyn gallu denu cwsmeriaid nad ydynt yn breswylwyr i ‘r bwyty, ac i alluogi i ddiodydd alcohol fod ar gael iddynt.

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu**

- Bwriedir gofyn am brawf oedran gan unigolion sydd yn edrych o dan 25
- Cyfyngir nifer preswylwyr a rhai nad ydynt yn breswylwyr.
- Gofynnir i’r rhai nad ydynt yn breswylwyr i adael yr eiddo yn ddistaw
- Plant i fod gyda rhiant /gwarchodwyr yn bresennol
- Cydymffurfio gyda rheoliadau iechyd a diogelwch a than

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o’r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| | |
| Cyngor Tref | Llythyr – cefnogi’r cais |
| Preswylwyr cyfagos | 6 llythyr yn gwrthwynebu |
| | |

**Gwrthwynebiadau – Trigolion lleol**

Cafwyd 6 llythyr yn gwrthwynebu’r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal niwsans cyhoeddus
- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd

Mae’r oll o’r gwrthwynebwyr yn cyfeirio at eu pryderon am anaddasrwydd y ffordd fynediad gul i gynnydd mewn traffig; a chyfeirir at bryderon y byddai cynnydd mewn ymwelwyr i’r eiddo yn creu sefyllfa lle mae yna botensial na fyddai cerbydau argyfwng yn gallu cael mynediad i ‘r eiddo ar hyd y ffordd .

Cyfeirir hefyd at y ffaith fod yr eiddo mewn ardal breswyl ddistaw, ac y byddai caniatáu'r drwydded yn cynyddu sŵn.
Mae rhai o'r ymatebwyr yn bryderus fod potensial o gynnydd o drosedd ac anrhefn fel sydd yn cael ei gysylltu ag eiddo trwyddedig eraill.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.